Consortiwm De Orllewin a Chanolbarth Cymru
South West and Mid Wales Consortium

Y Bwrdd Gweithredol

27 Mawrth 2015
Y Llwyfan
Caerfyrddin
11.30 a.m. – 12.20 p.m.

PRESENNOL: Mr. Eifion Evans [Cadeirydd] Prif Gyfarwyddwr ERW Cyngor Sir Ceredigion;

Mr. Aled Evans	Castell-nedd Port Talbot
Ms Kate Evan-Hughes,	Cyngor Sir Penfro
Mr. Alan Tudor Jones	Aelod Annibynnol o'r Bwrdd
Ms Betsan O'Connor	Rheolwr Gyfarwyddwr ERW
Mr. Ian Roberts	Cyngor Sir Powys
Mr. Brian Roles	Dinas a Sir Abertawe
Mr. Rob Sully	Cyngor Sir Caerfyrddin
Mr. Martin S. Davies	Cyngor Sir Caerfyrddin

Hefyd yn bresennol fel arsylwyr:

Mr. Alun Charles	Aelod Annibynnol o'r Bwrdd
Mr. Lindsay Harvey	Dinas a Sir Abertawe
Ms Sarah Fulthorpe	Llywodraeth Cymru

Yn bresennol ar gyfer Cofnod 4:

Mr. Leyton Jones	Ymgynghorydd Her

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Edna Davies (Ysgol Gynradd Arberth, Sir Benfro, Cadeirydd Bwrdd y Penaethiaid), Ms. Kate Evan-Hughes (Cyngor Sir Penfro), Jonathan Haswell (Swyddog Adran 151, Sir Benfro), Mr. G. Rees (Llywodraeth Cymru), Ms. Mererid Stone (Aelod Annibynnol o'r Bwrdd), Mike Gibbon (Ysgol Sandfields, Castell-nedd Port Talbot, Is-gadeirydd, Bwrdd y Penaethiaid) a Chris Sivers (Abertawe).

2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

3. COFNODION Y CYFARFOD AR 13 CHWEFROR 2015

CYTUNWYD bod cofnodion y cyfarfod ar 13 Chwefror, 2015 yn cael eu cadarnhau yn gofnod cywir.

4. MYNEGAI RHAGORIAETH

Rhoddwyd adroddiad a chyflwyniad i'r Bwrdd gan Mr. Leyton Jones, Ymgynghorydd Her, ynghylch 'Deialog' sef cyfeiriadur perfformiad rhanbarthol ar y we a oedd yn helpu i drawsnewid cydweithredu rhanbarthol i ysgolion drwy eu galluogi i gysylltu'n systematig â'i gilydd a thrwy hynny gyfrannu at wella addysgu a dysgu. Nodwyd bod modd i athrawon ac Ymgynghorwyr Her ddefnyddio 'Deialog'. Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr angen am ystyried pryderon ynghylch diogelwch data ac osgoi dyblygiad wrth sefydlu systemau o'r fath.

CYTUNWYD bod yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo.

5. RHAGLEN LLYTHRENNEDD CORFFOROL I YSGOLION

Cafodd y Bwrdd adroddiad ynghylch nodau'r Rhaglen Llythrennedd Corfforol i Ysgolion a'r cynnydd hyd yn hyn. Roedd y Rheolwr Gyfarwyddwr wedi trafod yn helaeth ddyfodol y rhaglen yn ERW â Chyngor Chwaraeon Cymru a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, a chynigiwyd bod Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn cymryd y cyfrifoldeb gweithredol dros ddarparu'r rhaglen o fis Ebrill 2015 ymlaen. Byddai ERW yn cael gwybod am unrhyw ddatblygiadau.

NODWYD.

6. CYNLLUN BUSNES ERW

Cafodd y Bwrdd adroddiad a roddai drosolwg o'r broses o lunio Cynllun Busnes ERW ac a geisiai gymeradwyaeth i fwrw ymlaen â'r cynllun ar draws y rhanbarth yn unol â'r trefniadau a nodwyd yn y Cytundeb Cyfreithiol. Roedd gan yr adroddiad dri phrif ddeilliant sy'n flaenoriaeth sef Arwain dysgu, Addysgu a dysgu, a Chymorth ar gyfer dysgu.

CYTUNWYD bod awdurdod yn cael ei roi i swyddogion fwrw ymlaen â'r cynllun a'i gwblhau ar sail yr hyn a amlinellwyd yn yr adroddiad a bod y fersiwn derfynol yn cael ei hanfon drwy'r e-bost at yr aelodau.

7. HERIO AC ADOLYGU

Rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd fod yr adborth i Ddigwyddiad Herio ac Adolygu y Gwanwyn a gynhaliwyd ar 24 Mawrth 2015 wedi bod yn gadarnhaol a bod nifer o gyflwyniadau wedi bod a ddangosai feysydd blaenoriaeth y rhanbarth. Yn benodol, roedd yn galonogol fod y rhanbarth yn arwain ar Lythrennedd Digidol. Dosbarthwyd copi i'r aelodau o Gylch Gorchwyl 2015 ar gyfer y Cylch o Gyfarfodydd Herio ac Adolygu gyda'r Consortiwm Rhanbarthol ar gyfer Gwella Ysgolion.

NODWYD.

8. FFRAMWAITH RHANNU SWYDDOGAETHAU

Rhoddodd y Bwrdd ystyriaeth i ddogfen a gyflwynai fframwaith o swyddogaethau craidd cyffredin i ategu dylunio a darparu gwasanaethau ledled rhanbarth ERW. Hefyd dosbarthodd y Cadeirydd Fanyleb Gwasanaeth ar gyfer y Gwasanaethau Adnoddau Dynol a'r Gyflogres i ERW, a oedd wedi'i pharatoi gan Gyngor Sir Penfro, a dywedodd y byddai ef, gyda chymeradwyaeth y Bwrdd, yn atgoffa Cyngor Sir Penfro nad oedd yn cydymffurfio â'r Cytundeb Cyfreithiol.

CYTUNWYD bod y ddogfen yn cael ei derbyn fel ffordd ymlaen a bod y Cadeirydd yn cael awdurdod i gysylltu â Chyngor Sir Penfro ynghylch y mater y cyfeiriwyd ato uchod.

9. COD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL RHANBARTHOL

Dosbarthwyd y Cod Llywodraethu Corfforaethol Rhanbarthol i'r Bwrdd a bennai safonau arfer da ac a gâi ei ategu gan bolisïau, systemau a gweithdrefnau priodol a oedd wedi eu dylunio er mwyn sicrhau llywodraethu corfforaethol cadarn. Roedd y Cod yn amlinellu ymagwedd y Rhanbarth at lywodraethu corfforaethol, yn cefnogi ei weledigaeth, ac yn arddangos ymrwymiad i gynnal y safonau uchaf o ran uniondeb, didwylledd, ac atebolrwydd.

CYTUNWYD i'w dderbyn fel ffordd ymlaen.

10. Y GYMRAEG MEWN ADDYSG YN ERW

Rhoddodd y Bwrdd ystyriaeth i ddogfen a roddai drosolwg o'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ar draws y rhanbarth ynghyd â manylion ynghylch sut y byddai cymorth i'r Gymraeg mewn Addysg yn ERW yn cael ei roi ar waith ac yn gweithio'n effeithiol fel ffrwd gwaith er mwyn cyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Busnes.

CYTUNWYD i gymeradwyo'r argymhelliad bod gwaith grŵp y Gymraeg mewn Addysg yn canolbwyntio ar y tasgau a bennwyd yn y ddogfen a ddosbarthwyd.

11. CANGEN FASNACHU AR GYFER ERW

Rhoddodd y Bwrdd ystyriaeth i gynnig bod Cangen Fasnachu yn cael ei chreu ar gyfer ERW yn unol â'r Cytundeb Cyfreithiol a nodai y gallai ERW gynhyrchu cyllid ar gyfer ei waith craidd.

CYTUNWYD I ARGYMELL I'R CYD-BWYLLGOR fod awdurdod yn cael ei roi i'r Rheolwr Gyfarwyddwr, gyda chyngor a gwybodaeth bellach gan y Bwrdd Ymgynghorol, sefydlu cangen fasnachu ar gyfer ERW.

12. GRANT AMDDIFADEDD DISGYBLION PLANT SY'N DERBYN GOFAL

Rhoddodd y Bwrdd ystyriaeth i adroddiad a fanylai ar y cynllun gwariant rhanbarthol arfaethedig ar gyfer yr elfen o'r Grant Amddifadedd Disgyblion sy'n ymwneud â Phlant sy'n Derbyn Gofal ar gyfer 2015/16 a 2016/17. Roedd y cynllun yn cynnwys

bwriad i benodi Cydgysylltydd Hyfforddiant a Sicrhau Ansawdd ERW mewn perthynas â Phlant sy'n Derbyn Gofal/Grant Amddifadedd Disgyblion, a fyddai'n cael ei gyllido drwy grant rhanbarthol.

CYTUNWYD i gymeradwyo'r cynllun gwariant arfaethedig yn amodol ar werthuso'r cyflog ar gyfer y swydd arfaethedig fel Cydgysylltydd Hyfforddiant a Sicrhau Ansawdd ERW mewn perthynas â Phlant sy'n Derbyn Gofal/Grant Amddifadedd Disgyblion.